**Beirniadaeth Cystadleuaeth 337**

**Barddoniaeth Blwyddyn 2 ac iau: Bwyd**

**Beirniad: Gethin Davies**

1. Draig Komodo
2. Ceridwen
3. Lili Wen Fach

Am braf oedd gweld 94 o ddisgyblion yn rhoi cynnig arni – roedd y testun 'Bwyd' at ddant sawl un yn amlwg! Mi wnes i fwynhau darllen pob un o'r cerddi a ddaeth i law – ac roedd hi'n hyfryd gweld sawl un mewn llawysgrifen gyda lluniau yn ychwanegu at naws y darn!

Llwyddodd sawl un i greu darlun cofiadwy iawn – ac mae yna sawl techneg a all ein helpu ni i wneud hynny. Fe wnaeth **Bardd RTB** gymhariaeth wych drwy ddweud 'bydda i'n tyfu'n gryf fel Orig, ac yn gweithio yn galed fel morgrug'. Dyna a wnaeth **Grug** yn ardderchog hefyd: 'cyri sbeislyd fel tân y ddraig', 'byti bacwn hallt fel dŵr y môr yn Corfu', a 'sŵp llysiau mam fel blanced gynnes'. Fe wnaeth **Lili**, **Lamine Yamal**, **Cacan Goch, LE, Mwyar Duon** a **Nelsi** hefyd wneud sawl cymhariaeth dda iawn!

Fe wnaeth **Blaidd Llwglyd** ailadrodd yr un frawddeg sawl gwaith, gan wneud hynny'n effeithiol: 'does dim sôs coch arno fe!' Ar ôl gwrthod pob bwyd arall, pan ofynnwyd beth oedd eisiau i'w fwyta, dim ond un ateb oedd i'w gael: 'sôs coch!'

Fe wnaeth sawl un ddefnyddio ansoddeiriau creadigol i helpu creu delwedd glir yn fy meddwl – **Dewi** a'i 'rawnfwyd creisionllyd'; **Rwmi** a'r 'afal sur o'r berllan sydd i lawr y rhiw serth'. Dewisodd **Blodyn Melyn** ferfenw gwych wrth ddweud bod ei 'dwy bancosen yn morio mewn surop' – galla i eu dychmygu nhw'n iawn!

Fe wnaeth **Jim Lewis** fanteisio ar ei dafodiaith, wrth iddo ofyn i mam a dad am ei hoff beth sef 'tato a moron a thwrci rhost glei!' Yn handi iawn, beth yw'r ateb sy'n odli gyda 'glei'? 'Cei'! Defnyddio trosiad yn effeithiol wnaeth **Dewi Sant** wrth ddisgrifio 'trysor sy'n well nag arian'. Na, nid deimwnd, aur na medal...ond cinio Anti Megan!

Roeddwn i'n arbennig o hoff o gerddi **Bwyd, Bwgan Brain, Brechdan Jam, T-Rex, Sbageti, Mimi** ac **EW** – am ddefnyddio odlau a rhythm effeithiol i'w cerddi, am gyfleu neges glir, ac am greu delweddau hyfryd.

Ond mae pedair cerdd arall sydd wedi cydio yn fy nychymyg eleni. Fe wnes i chwerthin lond fy mol wrth ddarllen cerdd **Brenhines y Cawl**, sy'n disgrifio beth mae aelodau o'i theulu yn hoffi ei fwyta. Roeddwn i'n falch bod 'dad-cu ddim yn bwyta bwyd ci'! Gallwch chi ddychmygu beth ydi hoff fwyd y bardd o'r ffug-enw!

Ar ôl taith hir yn y car i weld mam-gu a dad-cu, mae **Lili Wen Fach** yn llwglyd, a does dim byd yn apelio yn y cypyrddau na'r ffrij. Ond mae un drôr yn achub y dydd – lle mae 'Pengwin, KitKat, Polo Mints a Jammy Dodgers...a dyna nhw! Cadbury Buttons!' Mae'r llinellau byr yn cyfleu'r cynnwrf o weld y losin – a lle gwell i'w bwyta na tu ôl y soffa!

Roedd crefft **Ceridwen** yn wych, gyda phenillion crafog yn cadw sylw'r darllenydd drwyddi draw. Mae gan **Ceridwen** flas chwaethus wrth i'r gerdd drafod cimwch ffres, cerrig gleision hallt, *bolognese, carbonara, ravioli, farfalle, dauphinoise*. Os byddai gwobr am enwi bwydydd y byd, **Ceridwen** fyddai'n mynd â hi!

Fy hoff gerdd eleni oedd cerdd **Draig Komodo**, sy'n disgrifio ci (neu folgi!) hoffus yn yr ardd. Ond mae problem – mae'r ci yn bwyta popeth! Mae'r gerdd yn cynnwys dechrau, canol a diwedd clir, ac mae'n llifo'n naturiol wrth sôn am un fowlen o tsili, dau far o siocled, tri tin o fîns ac ati. Mae'r gerdd yn adeiladu'n raddol, gyda'r ci yn ein rhyfeddu fwy a mwy gyda phob peth y mae'n ei fwyta! Mae'r uchafbwynt heb os yn y pennill clo – gan ddefnyddio ymadrodd yn llythrennol iawn, a hynny mewn ffordd annwyl.

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd – dwi'n edrych ymlaen at glywed mwy o gampweithiau yn y dyfodol!